# Adroddiad Arolygu

**Llinos Hindley**

**Llanelli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/07/2023

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn lleoliad y gwarchodwr plant yn fawr. Maent yn dod yn gyfarwydd â'r arferion ac yn gwrando'n astud ar yr hyn y mae'r gwarchodwr plant yn ei ddweud. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cynnes ac maent yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae'r plant yn mwynhau chwarae ac yn dangos cyffro a mwynhad wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n defnyddio technegau atgyfnerthu cadarnhaol ac mae'n dangos esiampl dda i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb i anghenion y plant ac yn cefnogi'r plant â'u chwarae a'u dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd diogel i'r plant. Mae'n atgoffa'r plant am ddiogelwch yn rheolaidd ac yn dilyn arferion hylendid digonol. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig digon o le i chwarae ac ymlacio ac mae'n gwneud defnydd rheolaidd o'r ardaloedd awyr agored yn lleol. Mae'n cynnig amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da sy'n addas i'r ystodau oedran mae'n gofalu amdanynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n gadarnhaol i ddatblygu ei gwasanaeth. Mae'n sicrhau ei bod yn cadw'r holl ddogfennaeth ofynnol ac yn gweithio'n gadarnhaol i feithrin ei sgiliau personol. Mae'n cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ac yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, gallent ddewis beth i'w roi ar eu tost.  Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gael chwarae tennis yn ystod eu gweithgaredd nesaf a gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn gyfarwydd â'r gwarchodwr plant, gan ofyn cwestiynau iddi'n llawn cyffro ac maent yn fwy na pharod i rannu gwybodaeth am eu diwrnod. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion ac yn dilyn ei chyfarwyddiadau. Er enghraifft, wrth gerdded adref, gwrandawodd y plant yn astud ar gyfarwyddiadau'r gwarchodwr plant ac roeddent yn gwybod y ffordd adref, gan stopio mewn mannau priodol cyn parhau dan gyfarwyddyd y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol iawn yng nghartref y gwarchodwr plant, roedd rhai ohonynt yn gorwedd ar y soffa yn ymlacio ac yn gallu mynd estyn byrbrydau o'r cwpwrdd.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda. Maent yn cyfarch y gwarchodwr plant yn gynnes ac yn gwrando ar ei hymatebion. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda, ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan feithrin cydberthnasau. Maent yn fodlon rhannu adnoddau â'i gilydd, er enghraifft wrth chwarae tennis ac roeddent yn cymryd eu tro wrth chwarae gemau. Mae'r plant yn dangos diddordeb, ac yn dangos parch at eiddo a phobl. Er enghraifft, ni wnaeth y plant darfu ar gêm yr oedd rhywun wedi dechrau ei chwarae eisoes ac wedi'i gadael ar y bwrdd.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cynnal diddordeb ac yn llwyr ymroi i'w gemau. Er enghraifft, roedd llawer o gyffro wrth i'r plant sgorio pwyntiau wrth chwarae tennis. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel. Er enghraifft, wrth chwarae tennis, roedd y plant yn annog ei gilydd drwy ddweud pethau megis  "*wow, that's gone really high - well done*".

Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau. Gallant rannu eu syniadau a gwneud ceisiadau am ba weithgareddau i'w gwneud ar ôl yr ysgol. Mae'r plant yn rhannu eu meddyliau, eu hawgrymiadau a'u syniadau ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, nid oedd gan ddau blentyn raced tennis ond gwnaethant ddefnyddio eu dwylo yn lle hynny. Bu'r plant yn dangos y gêm i'r gwarchodwr plant yn llawn cyffro a ganmolodd eu hymdrechion. Dywedodd y plant wrthym eu bod wrth eu boddau yn dod at y gwarchodwr plant a'i bod hi'n gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

## Gofal a Datblygiad Da

Roedd y gwarchodwr plant yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n atgoffa'r plant yn gyson am gadw'n ddiogel allan yn y gymuned ac wrth gerdded yn ôl i gartref y gwarchodwr plant. Er enghraifft, roedd hi'n ymgysylltu â nhw'n gyson wrth gerdded gan ddweud “*slow down plantos*” a “*dere ma nawr*”. Mae gan y gwarchodwr plant drefniadau glanhau ac arferion hylendid priodol, ac mae'n cynnig byrbrydau iach. Caiff y polisi diogelu ei flaenoriaethu ac mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda iawn o'i chyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion priodol am y plant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r rhieni.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn gyson; mae'n gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'n canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd. Er enghraifft, dywedodd “*Roedd hwnna yn shot da iawn*!”. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'n annog y plant i rannu a chymryd eu tro ac yn nodi ei disgwyliadau i'r plant yn glir. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant unigol ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad y plant. Mae'n dangos esiampl dda bob amser, yn ymddwyn yn foesgar â'r plant ac yn defnyddio enwau'r plant i ddal eu sylw.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb cyson. Mae'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson â'r plant ac yn cefnogi dysgu'r plant drwy ddefnyddio geiriau Cymraeg newydd gyda'r plant pan fo angen. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae a gweithgareddau ac mae'n dilyn diddordebau'r plant. Er enghraifft, chwaraeodd y gwarchodwr plant gêm wyddor anifeiliaid a awgrymwyd gan un o'r plant. Mae'n cefnogi dysgu'r plant drwy drafodaethau a chwestiynu. Er enghraifft, nid oedd plentyn yn siŵr sut i lunio llythyren ac ysgrifennodd y gwarchodwr plant y lythyren ar law'r plentyn fel ei fod yn dod yn gyfarwydd  â hi. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion cyson am lesiant cyffredinol y plant, eu gweithgareddau a'u hymddygiad, ac yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni pan fo angen.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'n sicrhau bod pob drws ar glo a'i bod yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu prosesau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid digonol. Mae'r arferion rheoli heintiau priodol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol boddhaol, sy'n nodi risgiau posibl a sut bydd y gwarchodwr plant yn eu lleihau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael eu diweddaru i gynnwys y defnydd o'r sgwter symudedd wrth hebrwng y plant i'r ysgol ac oddi yno na'r holl beryglon yn y parc lleol. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn briodol ac yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol a'r buddion ar gyfer grŵp oedran y plant y mae'n gweithio gyda nhw. Mae'n cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd ar yr amgylchedd, adnoddau, y system wresogi a'r ymarferion tân. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu nid oedd gan y gwarchodwr plant gopi o ardystiad gwiriad diogelwch y system wresogi y gellid ei archwilio.  Cadarnhaodd y gwarchodwr plant fod y system wedi cael ei phrofi ond ei bod yn aros am ardystiad gwiriad diogelwch swyddogol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae ddigonol dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Gall y plant symud o amgylch yr ystafell chwarae, ymlacio ar y soffa neu eistedd wrth y bwrdd i chwarae gemau neu ddefnyddio'r ystafell fyw fwy o faint os bydd angen. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran dan sylw. Mae amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau wedi'u storio mewn blychau a chypyrddau wedi'u labelu, lle gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol gan fwyaf. Gall y plant ofyn am unrhyw adnoddau sydd allan o'u cyrraedd a gall y gwarchodwr plant eu hestyn iddynt. Mae ardal chwarae awyr agored sylweddol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda, ac mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r parc a'r cyfleusterau chwaraeon lleol yn rheolaidd â'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored. Gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau sy'n cefnogi eu datblygiad cyffredinol ac sy'n addas i oedran y plant sydd yn ei gofal. Er enghraifft, mae gemau bwrdd, gemau cardiau, goliau pêl-droed, peli, adnoddau creadigol ac adnoddau byd bach ar gael i'r plant eu defnyddio. Mae rhai adnoddau i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus iawn, yn agored ac yn gweithio'n briodol i wella ei gwasanaeth. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfoes ac effeithiol sy'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a ddarperir ac sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n cadw cofnodion rheoleiddio ar y plant yn ei gofal gan gynnwys contractau, anghenion unigol a chaniatadau. Er enghraifft, mae caniatadau wedi'u llofnodi ar gyfer gadael plant â gofalwr brys, eli haul a'r defnydd o gyfarpar chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau ffurflenni damweiniau a digwyddiadau yn llawn ac yn cofnodi unrhyw feddyginiaeth a roddir. Mae'n sicrhau y cânt eu rhannu â'r rhieni ac mae'n eu storio'n ddiogel. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau ar waith sy'n adlewyrchu gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn hunanwerthuso'n weithredol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rheini/gofalwyr ac yn eu gweithredu, gan greu adroddiad priodol ar ansawdd y gofal sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn weithgar yn ei datblygiad a'i sgiliau ei hun. Mae'n sicrhau ei bod wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd diweddaraf ac mae wedi bod ar amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant eraill. Er enghraifft, mae wedi cwblhau hyfforddiant 'Expectation of Behaviours' yn ogystal â digwyddiad hyfforddiant ‘Introduction to the Sustained Share Thinking and Emotional Well-being Scale’. Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ei thystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hi a'i gŵr yn ddilys a chadarnhaodd bod gan yr unigolyn sy'n cyflenwi mewn argyfwng hefyd dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n cadw cofnodion cywir o bresenoldeb ac nid yw'n mynd y tu hwnt i'w uchafswm cofrestredig. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o'r angen i gofnodi pan fydd yn gofalu am aelod o deulu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni. Mae'n rhoi adborth llafar bob dydd ac mae'n defnyddio negeseuon electronig os bydd angen. Mae'n rhoi llawer o wybodaeth i'r rhieni. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wrth eu boddau â'r gwasanaeth, bod y gwarchodwr plant yn gefnogol iawn ohonynt, ac yn drwyadl iawn wrth drosglwyddo gwybodaeth. Gwnaethant hefyd ddweud bod y gwarchodwr plant yn adnabod eu plant yn dda ac y byddai eu plant wrth eu boddau'n cael mynd yno yn fwy rheolaidd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 37 | Mynediad heb awdurdod | Cyflawnwyd |
| 38 | Dim cofnodion ymarferion tân | Cyflawnwyd |
| 15 (1) (a) | Datganiad o ddiben heb ei gwblhau | Cyflawnwyd |
| 30 (1) (a) Atod3.06 | Cadw cofnodion | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod yr ardystiad gwiriad diogelwch system wresogi ar gael i'w archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| **Argymhelliad/argymhellion** |
| Datblygu eich asesiadau risg ymhellach i fod yn fwy penodol i'ch gwasanaeth a'ch arferion/gweithdrefnau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/10/2023